BRITHDIR, LLANFACHRETH A RHYDYMAIN
COFNODION CYFARFOD BLYNYDDOL MAI 20, 2025

**Cyfarfod Blynyddol Cymuned Brithdir, Llanfachreth a Rhydymain a gynhaliwyd yn Neuadd Bentref Rhydymain**
**Nos Fawrth, Mai 20, 2025 am 7:30 o'r gloch.**

www.cyngorllanfachreth.cymru

**Presennol** Cynghorwyr: Gerallt Griffith, Meurig Ashton, Rhun Prys Jones, Karen Goswel a Llion Williams. Hefyd Cyng. Delyth Lloyd Griffiths a Henry M. Edwards.

**1. Croeso'r Cadeirydd.** Croesawyd pawb i'r cyfarfod.

**2. Ymddiheuriadau:** Peredur Jenkins, Emlyn Roberts, Robin Jones.

**3. Dewis Swyddogion**

Cadeirydd: Gerallt Griffith
Is Gadeirydd: Robin Jones

Cynrychiolwyr ar y canlynol:

Neuadd Bentref Brithdir: Rhun Prys Jones
Neuadd Bentref Llanfachreth: Gerallt Griffith
Neuadd Bentref Rhydymain: Emlyn Roberts
Neuadd Rhydygorlan: Meurig Ashton
Un Llais Cymru (2): Gerallt Griffith, Robin Jones

**4. Datgan diddordeb.**

Roedd Karen yn datgan diddordeb ynglŷn â gwyro llwybr cyhoeddus. Eitem 7.p..

**5. Cadarnhau cofnodion cyfarfod Mawrth 18, 2025.**

Cynigwyd ac eilwyd fod y cofnodion yn gywir.

**6. Materion yn codi o'r cofnodion Mawrth 18, 2025.**

Eitem 5, Eitem 1. Wedi ymgysylltu â'r aelodau, penderfynwyd rhoi wybod i Hwylusydd Tai Gwledig (20/3/2025) bod Neuadd Llanfachreth ar gael iddynt gynnal eu hymghynghoriad ar 9/4/2025. Roeddynt i gysylltu â Mr Chris Smith i wneud y trefniadau a'i e-bost yw chris820@btinternet.com Mr Smith yw Trysorydd y Neuadd. Mae'r gofalwr sy'n arfer delio hefo llogi y Neuadd ar ei wyliau. Awgrymwyd iddynt ymestyn eu diwrnod i tua 7:00yh i roi cyfle i weithwyr y gymuned dod i'w gweld. Os mae cynlluniau ar gael, awgrymwyd iddynt ddod a hwy i'r ymghynghoriad.

Anfonwyd y llythyr i'r aelodau.

Llythyr ateb (20/3/2025) oddi wrth Hwylusydd Tai Gwledig yn diolch am y wybodaeth. Bydd yr ymghynghoriad rhwng 5:00 a 7:00yh.

Anfonwyd y llythyr i'r aelodau.

Llythyr (31/3/2025) gyda phoster Cymraeg a Saesneg oddi wrth Hwylusydd Tai Gwledig yn rhoi gwybod am yr ymghynghoriad uchod. Yn bresennol bydd Tai Teg. Rhoddwyd y poster ar Facebook Neuadd Bentref Llanfachreth gan Gerallt a rhoddwyd y poster ar ein hysbysfyrddau. Derbyniwyd llythyr (8/4/2025) oddi wrth Delyth yn egluro pwrpas yr ymgynghoriad. Bydd yn rhoi cyfle i'r bobl leol cael gwybodaeth am gynlluniau sydd gan Cyngor Gwynedd a Tai Teg e.e. rhan berchnogaeth, grant i wella tai gwag.

Anfonwyd y ddau lythyr i'r aelodau.

Llythyr (10/4/2025) oddi wrth Hwylusydd Tai Gwledig yn amgau holiadur i'r aelodau rhoi barn ar yr ymghynghoriad trwy fynd ar linc https://bit.ly/arolwgcyngorcymuned Hefyd roedd llythyr i breswylwyr y gymuned ac iddynt gwblhau holiadur ar linc https://bit.ly/ArolwgLlanfachrethBrithdirRhydymainSurvey Dyddiad cau y ddau holiadur yw 23/4/2025

Anfonwyd y ddau lythyr i'r aelodau.

Llythyr arall (23/4/2025) oddi wrth Hwylusydd Tai Gwledig yn amgau holiadur i'r aelodau rhoi barn ar yr ymghynghoriad.

Anfonwyd y llythyr i'r aelodau.

Cafwyd wybod gan Delyth roedd yr ymghynghoriad yn llwyddianus a chafwyd cefnogaeth dda gan aelodau'r cyngor.

Eitem 11.a. Cafwyd gwybod (28/3/2025) gan Mr W. Barry Jones nid yw am dderbyn swydd Cynghorydd.

## 7. Gohebiaeth

a. Llythyr (19/3/2025) oddi wrth Un Llais Cymru gyda dogfen yn rhoi manylion o'u gwefan newydd.

Anfonwyd y llythyr i'r aelodau.

b. Llythyr (21/3/2025) oddi wrth Swyddog Gwasanaethau Etholiadol, Cyngor Gwynedd yn rhoi gwybod mae'r Cyngor yn cynnal adolygiad cymunedol o dan adrannau 25 a 31 Deddf Llywodraeth Leol (Democratiaeth) (Cymru). Mae hyn yn golygu ystyried newidiadau posib i ffiniau rhai cymunedau penodol o fewn Gwynedd a wardiau pob cymuned. Amgáu mae adroddiad yn cynnwys cynigion drafft y Cyngor ar gyfer gwneud newidiadau, ynghyd â manylion yr adolygiad.
Cynhelir ymgynghoriad cyhoeddus ar y cynigion drafft rhwng 28/3/25 a 23/5/25 ac mae linc yn cael ei roi sut i ymateb.

Anfonwyd y llythyr i'r aelodau.

c. Anfonwyd (21/3/2025) calendr ein cyfarfodydd i'r tair Neuadd.

ch. Llythyr (25/4/2025) oddi wrth Adran Priffyrdd yn rhoi gwybod bydd gwaith o osod 5 giat i gerddwyr, llystyfiant a cyferbwyntio ar lwybrau 60, 68, 120, 122 yn Llanfachreth. Hefyd, bydd gwaith yn cael ei wneud gan Tim Tacluso Ardal Ni (28/4 – 2/5/2025) yn Brithdir a Llanfachreth.

Anfonwyd y llythyr i'r aelodau.

d. Llythyr (26/3/2025) oddi wrth Comisiynydd y Gymraeg, ar rân Cynghorau Cymuned a Thref Gwynedd, yn amgau llythyr anfonwyd i Dafydd Gibbard, Prif Weithredwr Cyngor Gwynedd. Mae'r llythyr yn pryderu am effaith cynlluniau datblygu a pholisiau gosod tai cymdeithasol Cyngor Gwynedd mewn partneriaeth efo'r cymdeithasau tai Adra a Tai Gogledd Cymru. Mae dryswch ynglŷn sefyllfa gyfreithiol yr iaith i ddarpar denantiaid ac angen Cyngor Gwynedd i sefydlu Polisi Gosod Lleol.

Anfonwyd y llythyr i'r aelodau.

Llythyr ateb (3/4/2025) Dafydd Gibbard yn rhoi gwybod mae Cyngor Gwynedd yn gwarchod a chryfhau'r defnydd o'r Gymraeg ac wedi cyhoeddi Polisi Addysg Gymraeg. Mae'r Cyngor am newid rheolau'r dreth i fydd treth ar dai gwyliau ac ail gartrefi yn cynyddu. Cyngor Gwynedd yw'r cyngor cyntaf i gyflwyno Gorchymyn Erthygl 4 er bod heriau cyfreithiol gan wrthwynebwyr. O dan Polisi Gosod Tai Gwynedd mae 97% o holl osodiadau'r sir yn mynd i unigolion â chysylltiad â Gwynedd ac mae 95% o breswyliwyr yn gallu'r Gymraeg. Bydd mwy o drafodaeth gyda'r Comisiynydd Iaith i wella'r polisi gosod a chael barn gyfreithiol. I warchod a hybu'r Gymraeg mae gan bob sefydliad cyfrifoldeb i wneud hyn.

Anfonwyd y llythyr i'r aelodau.

dd. Llythyr (2/4/2023) oddi wrth Heddlu Dolgellau yn rhoi gwybod maent yn awyddus cael cynrychiolydd o'r Cyngor Cymuned i fynychu eu cyfarfod i drafod eu planiau dros adeg yr haf. Bydd manylion y cyfarfod yn cael ei roi ymhellach ymlaen.

Anfonwyd y llythyr i'r aelodau.

e. Llythyr (7/4/2025) oddi wrth Un Llais Cymru yn rhoi gwybod am Grant Ymgysylltu Democrataidd sydd ar gael gan Llywodraeth Cymru am y cyfnod 2025-2028. Mae'r grant i sefydliadau sydd fel arfer wedi'u tangynrychioli yn y wlad e.e. pobl ifanc, pobl anabl, pobl sy'n ddi-waith hirdymor, pobl o grwpiau lleiafrifoedd-ethnig.

Anfonwyd y llythyr i'r aelodau.

f. Llythyr (15/4/2025) oddi wrth Amddiffyn Gwasanaethau Bronglais yn rhoi gwybod mae Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda yn bwriadu israddio Uned Strôc Ysbyty Bronglais, Aberystwyth gyda mwyafrif o'r Gwasanaeth Strôc yn cael ei wneud yn Ysbyty'r Tywysog Phillip, Llanelli. Cyn i hyn ddigwydd bydd ymgynghoriad cyhoeddus yn dechrau 29 Mai. Maent angen i'r cynghorwyr cytuno i wrthwynebu'r cynllun o golli gwasanaethau ym Mronglais.

Anfonwyd y llythyr i'r aelodau.

Llythyr (28/4/2025) oddi wrth Amddiffyn Gwasanaethau Bronglais yn rhoi gwybod mae gwahoddiad i gyfarfod ynghylch ymgynghoriad cyhoeddus ar wasanaethau iechyd gan Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda. Bydd y cyfarfod ar 20/6/2025 am 7.00yh yn Neuadd Fawr, Canolfan y Celfyddydau Aberystwyth, Campws Prifysgol Aberystwyth..

Anfonwyd y llythyr i'r aelodau.

Cafwyd wybod bydd Delyth yn mynychu'r cyfarfod.

ff. Llythyr (17/4/2025) oddi wrth Un Llais Cymru yn amgáu eu E-Bwletin rhif 1 sy'n cynnwys rhestr o gyrsiau hyfforddiant ym mis Ebrill.

Anfonwyd y llythyr i'r aelodau.

g. Llythyr (28/4/2025) oddi wrth Priffyrdd, Cyngor Gwynedd yn rhoi gwybod bydd gwaith arwisgo yn cael ei wneud ar:
Ffordd B4416 ar Pont a'r Ddibyn - 20mya, Brithdir.
Ffordd B4416 ar A494 - 20mya, Brithdir.
Ffordd Dosbarth lll wrth Clock Lodge - A494, Dolgellau.
Ffordd Dosbarth III ar ffordd Tan y Foel, Llanfachreth.

Anfonwyd y llythyr i'r aelodau.

h. Llythyr (29/4/2025 a 13/5/2025) oddi wrth Adran Tai ac Eiddo, Cyngor Gwynedd yn rhoi gwybod am 'Tai ar Daith' bydd yn rhoi gwybodaeth ar gynlluniau sydd ar dai. Amgáu mae rhestr o lefydd maent ymweld gyda dyddiad ac amser.

Anfonwyd y ddau lythyr i'r aelodau.

Cafwyd wybod bydd Delyth yn mynychu'r cyfarfod yn Neuadd Pendre, Tywyn.
.

i. Llythyr (30/4/2025) oddi wrth Un Llais Cymru yn rhoi gwybod bydd eu cyfarfod Pwyllgor Ardal Meirionydd yn Llyfrgell Rhydd, Dolgellau ar 14/5/2025 am 7:00yh. Amgau mae Agenda a Chofnodion cyfarfod 2/10/2024, Local Project update a Chofnodion Pwyllgar Gwaith Cenedlaethol 14/3/2023.

Anfonwyd y llythyr i'r aelodau.

j. Llythyr (8/5/2025) oddi wrth Un Llais Cymru yn cynnwys llythyr oddi wrth Cynghorydd Mike Parry pwy sydd wedi ymddeol yn gynrychiolydd Un Llais Cymru ar Grwp Cyfeirio Rhandeiliaid Betsi ers sawl blwyddyn. Mae Cynghorydd Mike Parry yn dweud mae'n hanfodol bod Un Llais Cymru yn cael cynrychiolaeth ar y Grwp sydd yn cyfarfod pob dau fis. Mae'n gofyn am enwebiadau gan unigolyn a fyddai'n barod i wasanaethu Un Llais Cymru ar y Grwp.

Anfonwyd y llythyr i'r aelodau.

l. Llythyr (8/5/2025) oddi wrth Swyddog Gwybodaeth i Deuluoedd Gwynedd, Cyngor Gwynedd gyda'u newyddlen ddiweddaraf sy'n rhoi gwybodaeth ar sut i fod yn warchodwr plant, podlediad iechyd meddwl rhieni a materion eraill.

Anfonwyd y llythyr i'r aelodau.

ll. Lythyr (8/5/2025) oddi wrth Un Llais Cymru gyda dogfennau: Llenwi lleoedd gwag trwy gyfethol a Gwneud synnwyr o Jargon.

Anfonwyd y llythyr i'r aelodau.

m. Llythyr (12/5/2025) oddi wrth Cronfa Cefnogi Adfywio Cymunedau, Cyngor Gwynedd yn cynnwys ffurflenni cais am grant rhwng £10,000 a £100,00.

Anfonwyd y llythyr i'r aelodau.

n. Llythyr (15/5/2025) oddi wrth Cymorth Cynllunio Cymru yn amgáu rhaglen hyfforddi bydd yn cael ei gynnal ar-lein. Y gost yw £20 y sesiwn.

Anfonwyd y llythyr i'r aelodau

o. Llythyr (16/5/2025) oddi wrth Un Llais Cymru gyda E-Bwletin rhif 1 sy'n cynnwys rhestr o gyrsiau hyfforddiant ym mis Mai a Mehefin a gwybodaeth arall.

Anfonwyd y llythyr i'r aelodau

p. Llythyr (20/5/2025) oddi wrth Adran Amgylchedd, Cyngor Gwynedd yn rhoi gwybod mae bwriad i wyro llwybr droed rhif 38 ger Ystum-gwadnaeth, Llanfachreth oherwydd dryswch mae'n achosi i ddefnyddwyr. Bydd llinell newydd y llwybr yn cynnwys llai o gatiau a chroesfan well dros y nant.

Anfonwyd y llythyr i'r aelodau

Penderfynwyd cefnogi wyro'r llwybr.

**8. Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri**

a. Cais cynllunio NP5/54/461E. Gosod paneli solar ar ddrychiadau dwyreiniol a gorllewinol. 11 Bryniau, Brithdir.

O'r ymateb cafwyd (gan dri aelod) roedd cefnogaeth i'r cais ond nid oedd rheswm yn cael ei roi fel mae'r Parc ei angen. Felly, rhoddwyd gwybod i'r Parc mai Dim Sylwadau / Niwtral oedd ein penderfyniad a gohirwyd y penderfyniad tan y terfyn 21 diwrnod.

b. Llythyr (10/4/2025) oddi wrth y Parc yn rhoi gwybod am Fforwm Cymunedau'r Parc bydd yn cael ei gynnal ar Zoom ar 8/5/2025 am 7.00yh. Maent yn gwahodd dau gynrychiolydd o'r Cyngor i'r fforwm ac angen yr enwau erbyn 25/4/2025. Mae'r Parc am ddiwygio y ddau Gynllun Strategol sef Cynllun Eryri a'r Cynllun Datblygu Lleol.

Anfonwyd y llythyr i'r aelodau.

Llythyr (29/4/2025) oddi wrth y Parc yn atgoffa am y fforwm a llythyr (9/5/2025) yn rhoi y linc i'r Fforwm .

Anfonwyd y ddau lythyr i'r aelodau.

c. Llythyr (19/5/2025) oddi wrth y Parc yn rhoi gwybod maent wedi dechrau y broses o baratoi Cynllun Datblygu Lleol Eryri newydd. Bydd ymgynghoriad cyhoeddus rhwng Mai 16 a Mehefin 24.

Anfonwyd y ddau lythyr i'r aelodau.

**9. Materion Ariannol**

a. Llythyr (1/4/2025) oddi wrth Eisteddfod Gerddorol Ryngwladol Llangollen. Maent angen cymorth ariannol.

Penderfynwyd trafod y mater mis Chwefror 'Cais am Nawdd'.

b. Llythyr (2/4/2025) oddi wrth Zurich, ein cwmni yswiriant. Amgáu mae 'Policy Schedule'. I'w adnewyddu am y cyfnod 1/6/2025 – 31/5/2026 maent yn rhoi dewis taliad: am un flwyddyn £683.32 am dair blynedd £640.46. (Taliad flwyddyn ddiwethaf oedd £624.60).

Penderfynwyd dewis y taliad am dair blynedd a thalu'r ffi £640.46.

c. Am ryw reswm ni chafwyd ad-daliad Cyngor Gwynedd tuag at glirio llwybrau am 2024-2025. Gwnaethpwyd ymoliadau (4/4/2025) gyda Swyddog llwybrau, Cyngor Gwynedd am yr ad-daliad a rhoddwyd gwybod (28/4/2025) i Adran Cyllid ni chafwyd yr ad-daliad. Gofynnwyd am help Delyth i gael ymateb gan Adran Cyllid (2/5/2025) ar y mater a faswyd y mater i Pennaeth Adran Cyllid. Derbyniwyd galwad ffôn (6/5/2025) oddi wrth Swyddog o'r Adran yn rhoi gwybod cafodd yr ad-daliad ei roi i Cyngor Cymuned Llanelltyd ac maent am gywiro'r camgymeriad. Hefyd, cafodd Delyth lythyr gan Pennaeth yr Adran yn rhoi gwybod mae trefniadau wedi cael ei wneud i dalu'r ad-daliad. Cafwyd yr ad-daliad £490.30 ar 7/5/2025.

ch. Llythyr (2/4/2025) oddi wrth Trysorydd Pwyllgor Neuadd Rhydygorlan yn diolch am ein rhodd o £800. Mae'n ymddiheuro am fod yn hwyr yn rhoi gwybod i ni ac yn ymddiheuro ni anfonwyd mantolen ariannol 2023-2024. Mae'r Neuadd yn chwilio am Ysgrifennydd.

d. Anfonwyd copi o Cyfrifon y Cyngor 2024-2025 i'r aelodau (11/4/2025).

e. Balans yn Account Rhif 61402277 ar 29/3/2025: £1,189.55.
Balans yn y banc ar 29/3/2025: £5,495.16.

f. Llythyr (14/4/2025) oddi wrth Kids Cancer Charity. Maent angen cymorth ariannol.

Penderfynwyd trafod y mater mis Chwefror 'Cais am Nawdd'.

ff. Llythyr (28/4/2025) oddi wrth Uned Taliadau, Cyngor Gwynedd yn rhoi gwybod bydd taliad praesept £6,000 yn ein cyfrif tua ar 30/4/2025. Taliad am hanner blwyddyn.

g. Llythyr (28/3/2025) oddi wrth Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol yn rhoi gwybod maent yn cael eu diddymu ar Mawrth 31 ac yn cael eu trosglwyddo i Gomisiwn Democratiaeth a Ffiniau Cymru (y Comisiwn) )(Comisiwn Ffiniau a Democratiaeth Leol Cymru gynt) ar Ebrill 1, 2025. Mi fydd angen anfon ffurflen datganiadau taliadau ar gyfer 2024-2025 i cydnabyddiaeth@cdffc.llyw.cymru erbyn Medi 30.

Anfonwyd y llythyr i'r aelodau.

Anfonwyd (7/5/2025) Ffurflen Datganiad o Daliadau i Aelodau 2024-2025 i Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol a rhoddwyd y ffurflen ar ein gwefan.

Anfonwyd copi o'r ffurflen i'r aelodau ar 13/5/2025.

h. Balans yn Account Rhif 61402277 ar 29/4/2025: £1,191.23
Balans yn y banc ar 29/4/2025: £4,874.56.

**<u>10. Archwilio</u>**

a. Anfonwyd (26/3/2025) llythyr i Gwasanaeth Archwilio Mewnol, Cyngor Gwynedd yn gofyn iddynt archwilio dogfennau y Cyngor am y cyfnod 2024-2025.

Llythyr ateb (26/3/2025) yn rhoi gwybod maent am wneud y gwaith.

Llythyr (28/3/2025) yn cynnwys rhestr o ddogfennau bydd angen sylw i'r archwiliad a hefyd llythyr pennodi templed i'w anfon yn ôl yn dangos rydym yn derbyn eu Gwasanaeth (anfonwyd y llythyr ar 29/3/2025).

Anfonwyd (14/5/2025) dogfennau'r Cyngor i'r Gwasanaeth Archwilio Mewnol i gael eu archwilio.

Derbyniwyd yr Adroddiad ar 19/5/2024. Nid oedd materion yn codi oedd angen sylw.

Anfonwyd yr adroddiad i'r aelodau ar 19/5/2025

Mae angen cymeradwyo y datganiadau cyfrifeg ar Datgan Llywodraethu Blynyddol, sef y Ffurflen Flynyddol ddaeth i ben 31 Mawrth 2025. Mae angen i'r Cadeirydd arwyddo'r ffurflen.

<u>Cafodd</u> y Ffurflen ei chymeradwyo a'i arwyddo gan y Cadeirydd.

b. Llythyr (15/4/2025) oddi wrth Archwilio Cymru yn cynnwys dogfennau i baratoi archwiliad Sylfaenol (Basic) 2024-2025.

c. Llythyr (25/4/2025) oddi wrth Archwilio Cymru yn cynnwys:

a. copi o'r ffurflen flynyddol ardystiedig ar gyfer archwiliad 2023-2024. O'r ffurflen nodwyd nid oes unrhyw faterion yn achosi pryder i'r archwilydd, er roedd materion angen sylw:

1. Nid yw'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol yn gyson â rheolaethau mewnol a threfniadau llywodraethu'r Cyngor ar gyfer y flwyddyn. Nid yw'r Cyngor yn cyhoeddi ar ei wefan yr wybodaeth y mae'n ofynnol iddo ei chyhoeddi'n electronig gan Gomisiwn Ffiniau a Democratiaeth Cymru ac ati. Deddf 2013 a Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021

2. Mae angen gymeradwyo taliadau cyn iddynt gael eu gwneud. Nid

oedd tri daliad (cynnal a chadw gwefannau, ffi archwilio Archwilio Cymru, aelodaeth Un Llais Cymru) wedi'u cofnodi fel rhai wedi'u cymeradwyo gan y Cyngor.

3. Mae angen y Cyngor sicrhau ei fod wedi derbyn ac ystyried yr adroddiad Archwilio Mewnol cyn iddo gymeradwyo'r Ffurflen Flynyddol.

b. Hysbysiad yn rhoi gwybod bod yr archwiliad wedi'i gwblhau a bod y Ffurflen Flynyddol ar gael i'w archwilio gan etholwyr llywodraeth leol. Rhoddwyd yr hysbysiad ar ein gwefan a hysbysfyrddau ar 28/4/2025 ac angen ei arddangos am gyfnod o leiaf 14 diwrnod.

Anfonwyd y llythyr i'r aelodau.

Anfonwyd hefyd (28/4/2025) i'r aelodau copi o'r hysbysiad cafodd ei roi ar ein hysbysfyrddau ac ar ein gwefan.

Roedd yr aelodau yn angytuno â sylwadau Archwilio Cymru yn dweud roedd taliadau yn cael eu gwneud cyn iddynt eu cymeradwyo gan y Cyngor. Mae pob taliad yn cael ei gymeradwy can y cyngor cyn iddynt gael eu gwneud.

## **11. Adroddiad Cynghorydd Delyth Lloyd Griffiths**

1. Arolwg tai Llanfachreth, Rhydymain a Brithdir wedi cael ei gwblhau a nifer uchel o geisiadau ar gyfer tai cymdeithasol yn bob ardal.
Tai tair llofft sydd angen a hefyd unedau ar gyfer un person.

2. Ysgol Llanfachreth - Pensaer wedi cael y briff ar gyfer y Gwaith.

3. Broadband ardal Bontnewydd ac ardaloedd yn Rhydymain ddim yn gyflym ac felly mae Cynllun gwella ar y cyd a Cwmpas wedi ei gychwyn ac angen gweithio arno yn fuan.

4. Gwerthu Ystâd y Nannau. Trefnais gyfarfod i'r tenantiaid wythnos yma a daeth yr undebau amaethyddol i gadeirio a rhoi Cyngor cyfreithiol denantiaid,

5. Cynnig yn y Cyngor mis yma gennyf a Cynghorydd Elin Hywel ar dorri budd daliadau gan Llywodraeth San Steffan gan fod yr effaith yn sylweddol iawn ar drigolion Cymru a Gwynedd.

6. Manddaliadau Gwynedd. Mae y Cyngor wedi sicrhau 2.1 miliwn ar gyfer gwella yr eiddo. Dwi dal i aros am amserlen ar gyfer gwneud y Gwaith hanfodol ar gartrefi yn y lle cyntaf.

7. Grantiau SPF wedi ei wario gan Gwynedd – sef 24.4 miliwn
Cronfa Cist Gwynedd ar gael ar gyfer llai na £10,000
Cronfa diwylliant ar gael gan Gwynedd ar hyn o bryd.
Cronfa adfywio bro a chefnogi Cymunedau ar agor o 15/6/25 ymlaen a grantiau rhwng £10.000a £100,000 ar gael ar gyfer cyfalaf a refeniw.

8. Ysbwriel yn broblem yn bob ardal yn y Ward ond ysbwriel mawr wedi ei adael yn

Brithdir mis yma a Rhydymain heno. Steven Edwards yn y Cyngor wedi trefnu cludo y llanast i ffwrdd mewn rhai dyddiau.

9. Mynwent Brithdir – Cwynion wedi bod ond Rhun wedi asesu y sefyllfa.

10. Cynllun Ffermio Bro y Parc yn cychwyn yn fuan a tri Aelod o staff Newydd yn cael eu penodi yn fuan.
Adborth yn y Cyngor yma fod taliadau o £24 am walio un uned yn isel iawn gan fod y gost erbyn hyn dros £35 yr uned. Byddaf yn rhannu yr adborth yma gyda 'r Parc yn y Cyfarfod nesaf.

10. Cafodd lori galch drafferth mynd ar hyd Ffordd Lefal yn enwedig ar y ffordd is-lawr. Roedd y lorri yn ffodus dim ond 6 olwyn oedd arni; gyda 8 olwyn mae'n bosib bysa trychineb. Mae'r bont cafodd ei gosod gan Cyngor Gwynedd ar sgiw yn achosi anhawster i'r trigolion. Rhoi'r mater i Priffyrdd, Cyngor Gwynedd.

**12. Materion yr Aelodau**

a. Cais gan Mr Aaron Roberts, Y Cyplau, Abergeirw, LL40 2PF i fod yn aelod o'r Cyngor ar Ward Machreth .
Penderfynwyd derbyn Mr Aaron Roberts yn aelod.

b. Anfonwyd (24/3/2025) i'r aelodau Adroddiad Blynyddol y Cyngor 2024-2025.

c. Mae angen i'r aelodau cwblhau ffurflen 2025–2026 yn rhoi gwybod os maent yn derbyn neu wrthod y lwfans.

d. Mater gan Emlyn. Gyda dŵr yn codi o'r gwter sydd ychydig i fyny'r ffordd o dalcen uchaf Neuadd Rhydymain, mae'n debyg bod y beipen o'r gwter wedi cau.
Penderfynwyd rhoi'r mater i Priffyrdd, Cyngor Gwynedd.

Llofnod: Dyddiad: